

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Ionawr 18, 2022 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Geraint Evans, Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf 2022.

2. Ymddiheuriadau: Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 16, 2021

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 16, 2021

Eitem 5. Eitem 5, Eitem 6. ff. Penderfynwyd i Peredur Jenkins holi am ystadegau am Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (25/11/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu Agenda ar gyfer Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd a Chofnodion y Pwyllgor cynhaliwyd ar Medi 2021. Bydd y cyfarfod am 7.00yh, 8/12/2021 ar Zoom.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Roedd Karen Goswell yn bresenol yn y cyfarfod.

b. Llythyr (6/12/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafndiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn â mynediad Cefn Creuan Uchaf, Rhydymain. Bydd y ffordd ar gau ar 9/12/2021 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 18, 2022

c. Llythyr (13/12/2021) oddi wrth Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd. Bydd etholiadau Cyngor Cymuned ac etholiadau Cyngor Sir yn cael eu cynnal ar Mai 5, 2022. Mae'n debygol bydd y gost yn £1,500 ond os fydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad bydd y gost yn £100. Mae angen rhoi ystyried i'r costau wrth baratoi ein Praesept. O'r llythyr mae newid ffiniau Etholiadol Lleol Gwynedd wedi dod i rym ac o'r linc wefan mae Cyngor Llanelltyd, Cyngor Ganllwyd, a Chyngor Brithdir a Llanfachreth yn un. Gyda newid ffiniau bydd y Swyddog yn cysylltu â ni yn uniongyrchol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon y llythyr i Karen Goswell a Peredur Jenkins.

ch. Llythyr (14/12/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru trwy Un Llais Cymru ynglŷn â Cymwysterau Clercod yn ôl Rheoliadau Cyngorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol). Maent yn rhoi gwybod bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar Mai 5, 2022. I'r Cyngor fod yn gyngor cymuned cymwys mae rhaid i'r Clerc anelu am Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol. Ond nid rhaid i'r Cyngor fod yn gyngor cymuned cymwys. (Gweler Cofnodion Gorffennaf 20, 2021, Eitem 7.n.).

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyrau (15/12/2021 a 11/1/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (20/12/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafniadaeth dros dro ar Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Buchesydd, Rhydymain. Bydd y ffordd ar gau ar 4/1/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (11/1/2022) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd sesiynau yn cael eu cynnal i drafod sut mae gwireddu a gwareiddio ymweld cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri. Bydd sesiwn dalgylch Dolgellau ar 27/1/2022 am 2.30yp. Mae angen cofrestru erbyn 24/1/2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Roedd Karen Goswell a Peredur Jenkins yn bresenol yn y cyfarfod.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 18, 2022

f. Llythyr (17/1.2022) oddi wrth Cyngor Tref Nefyn yn gofyn i gynghorwyr gymryd rhan mewn tri ymgynghoriad mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal ynglŷn ag ail dai. Mae awgrym i'r atebion yr ymgynghoriadau wedi cael eu paratoi ac angen eu hanfon ymlaen i Llywodraeth Cymru. .

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Roedd barn gan yr aelodau doedd y mater ddim yn un hawdd i ddatrys.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (15/12/2021). Gyda Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd mae'r Awdurdod, gyda Cyngor Gwynedd, yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i asesu ceisiadau cynllunio sydd wedi ei leoli o fewn neu yn effeithio ar osodiad y Safle Treftadaeth y Byd. Os mae barn maent ei angen rhwng Rhagfyr 15 2021 a Chwefror 9, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Cais cynllunio NP5/54/8C. Codi adeilad i storio peirianau a gwaith cysylltiol. Gellfachreth, Llanfachreth. LL40 2EH

Anfonwyd llythyr (24/12/2021) i'r Parc yn gofyn am fwy o wybodaeth ar y cynllun.

Penderfynwyd atgoffa'r Parc am ateb y wybodaeth.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (23/11/2020) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2022 / 2023. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 28, 2022.

Praesept 2020 /2021 - £9,000.00. Praesept 2021 /2022 - £12,000.00.

Anfonwyd i'r aelodau manylion yn rhoi awgrym y praesept am 2022 / 2023.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £12,000 fel y llynedd.

b. Llythyr (25/11/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y terfyn ar gyfer 2022-23. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 o dan adran 137(4)(a), (1) a (3) £8.82, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.82 x 603 = £5,318.46.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 18, 2022

c. Llythyr (26/11/2021) oddi wrth Hosbisau Plant, Tŷ Gobaith, Conwy. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (5/1/2022) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (13/12/2021) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

dd. Bil (7/12/2021) am £2,310 oddi wrth A.M. Ashton am dorri llwybrau y Gymuned (150awr @ £15 = £2,250), ac am dorri gordyfiant llochesi fws Drwsynant, Rhydymain a Bontnewydd (4awr x £15 = £60).

Taliad flwyddyn ddiwethaf oedd £1,211.00. Yn cyfarfod Ionawr 19, 2021 trafodwyd y pris roedd A.M. Ashton yn ei roi, sef £7 bunt yr awr, a chytunwyd roedd y pris yn rhy isel (ni nodwyd hyn yn Cofnodion Ionawr 19, 2021, eitem d.).

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Llythyr (21/12/2021) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y gost o lenwi biniau halen yn ddi-dâl a bydd yn cael ei weithredu yn syth.

f. Derbyniwyd (12/1/2022) £490.30, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2021/2022.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/11/2021: £1,141.40.

Balans yn y banc ar 29/11/2021: £11,308.50. (29/11/2020: £7,206.39).

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/12/2021: £1,141.41.

Balans yn y banc ar 29/12/2021: £11,180.70. (29/12/2020: £7,078.59).

Gydag ein cyfrif bank yn Cyfrif Banc Elusennol mae ffi o £5 y mis yn cael ei dalu am gynnal y cyfrif.

9. Archwilio

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i sefydlu Timau i gadw ein trefi a chymunedau yn daclus. Bydd angen rhoi gwybod iddynt y gwaith sydd angen eu gwneud.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 18, 2022

b. Ni fydd Peredur Jenkins yn rhoi ei enw ymlaen yn etholiad Cyngorwyr Gwynedd ym mis Mai 2022.

11. Materion yr Aelodau

a. Roedd adroddiad am yr hysbysfwrdd newydd yn Llanfachreth yn rhifyn Tachwedd o'r Llygad Y Dydd. Gweler Cofnodion Hydref 19, 2021, Eitem 11.a.

Diolchwyd Geraint Griffith am yr adroddiad.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen:

1. ysgubo'r dail sydd ar ffyrdd y gymuned.
2. agor ffos sydd wedi cau ar ochr ffordd rhwng Capel Hermon a Pont Hermon.

c. Mae Cyngor Gwynedd wedi anfon llythyrau i dirfeddianwyr yn gofyn iddynt dorri coed sydd ar ochr y ffyrdd. Mae angen torri'r coed ond tydi hyn ddim yn deg i'r tirlfeddianwr gwneud y gwaith oherwydd diogelwch a chostau – mae angen llogi Golauadau Traffic, yswrians cywir. Mae Cyngor Gwynedd yn awgrymu i'r tirlfeddianwr gwneud y gwaith ar amser pan fydd y ffordd yn ddistaw ond mae peryglon gyda hyn o ddamwain fel digwyddodd yn ddiweddar.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau ag Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd ar y mater.

Llofnod:

Dyddiad:
